

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWIYD A'R NOS LUN 28AIN O DACHWEDD 2022 YN Y CABAN, YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL:

Y Cynghorwyr Ceri Davies (Cadeirydd), Rhain Jones, Manon Davies, Rhian Evans, Arwel Davies, Philip Williams, Ian Evans, Geraint Jones, Bari Evans ynghyd a'r Clerc

1: CROESO I'R AELODAU NEWYDD Y CYNGOR, SEF RHIAN JONES A MANON DAVIES.

Croesawodd y Cadeirydd i'r aelodau newydd a oedd yn mynychu'r cyfarfod cyntaf, sef, Rhian Jones a Manon Davies.

2. YMDDIHEURIADAU.

Y Cyngorydd Sir Ddinbych Elfed Williams.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Y Cynghorwyr Manon Davies ac Arwel Davies are item 15 isod a gadawyd yr ystafell yn ystod yr eitem dan drafodaeth.

4. TRAFODAETH GYDA FIONA JONES A LAURA CROWE.

Croesawodd y Cadeirydd Fiona Jones a Laura Crowe i'r cyfarfod a derbyniwyd manylion ynglŷn ar gynllun "Community Log Cabin" ar dir Ysgol Bro Cinmeirch yn Llanrhaeadr. Maent yn gofyn am ychwaneg o gymorth lleol cyn rhoi ceisiadau i mewn am gefnogaeth arian trwy grantiau i'r project. Mae'r mudiad wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus yn yr King's Head yn Llanrhaeadr ar 25ain o Ionawr 2023 i drafod y prosiect ymhellach a hefyd wedi paratoi holiadur i'w lenwi gan y trigolion lleol cyn y cyfarfod cyhoeddus.

Diolchwyd i Fiona Jones a Laura Crowe am fynychu'r cyfarfod.

5. ETHOLAETH Y CYNGOR A'R BROSES O GYFETHOL.

A: Chwblhawyd Rhian Jones a Manon Davies ffurflen "Datganiad Derbyn Swydd"

Cyngorydd Cyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch.

B. Mae yna un sedd wag yn bodoli bellach ar y Cyngor i'w ystyried yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

6. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 31ain Hydref 2022 yn gywir gan yr aelodau.

7. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.

A: Mae'r Adran Briffyrdd yn edrych ar y materion ffydd ganlynol sydd eisiau eu trwsio/wyneb newydd:-

1. Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-groes ac Ysgol Pant Pastynog.
2. Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-groes, Prion ar draws at ffordd Peniel (heibio Rhewl Valley).
3. Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-groes, Prion tuag at Brÿn Mulan.
4. Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-groes, Prion tuag at Gapel Prion.
5. Dwr yn cynilo ar y ffordd rhwng Pentre Farm a Llindir Bach yn Llanrhaeadr.

B. Dim ymateb Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar amodau cynllunio yn y cyn safle Bryn Morfydd yn Llanrhaeadr. Nodwyd yr aelodau fod yna arwydd newydd wedi mynd i fynnu ar y safle ynghyd ac ambell goeden wedi eu torri.

#### 8. PANEL WYBODAETH YN LLANRHAEADR.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Elfed Williams, Cadeirydd y Gadwraeth Ffynnon Dyfnog yn Llanrhaeadr, bod eisiau'r canlynol:-

A: Eisiau arwydd ar y mynediad giât i'r Ffynnon o'r A525.

B. Eisiau ymadael o'r eiddew ar y wal sydd ar ffin y Ffynnon ar y A525.

#### 9. GWELYAU BLODAU YN Y GYMUNED.

Derbyniwyd gwybodaeth fod Mrs Gwenfyl Jones wedi planau blodau ar ochr y ffordd ym Mhrion am gost o £116.99 sydd wedi cael ei ad-dalu gan y Clerc.

#### 10. UN LLAIS CYMRU - "ARWEINIAD AR BARATOI CYNLLUN HYFFORDDIANT CYNGOR GAN GYNNWYS TEMPLED AR GYFER CYNLLUN".

Penderfynwyd yr aelodau i gael cyfarfodydd hyfforddiant Un Llais Cymru ar y cyd gydag aelodau Cyngor Cymuned Cyffylliog yn y Gwanwyn 2023 am y gost o £320.00 am y noson ynghyd at gostau trafeliwr hyfforddiant.

#### 11. ARWYDDION CYFLYMDER YM MHRION (WRTH YR YSGOL)

Cafwyd trafodaeth ganlynol ynglŷn ar Ysgol Pant Pastynog:-

A; Eisiau symud arwydd blaenllaw o'r Ysgol o'r ffordd Prion tuag at Saron i'r ffordd Ysgol Pant Pastynog.

B. Disgwyl i'r arwyddion 20 filltir yr awr tu allan i'r Ysgol yn y dyfodol buan.

#### 12. LLEOLIAD ARWYDD CYFLYMDER YN LLANRHAEADR.

Gan fod y stad newydd ar gae drws nesaf i Ddolwar wedi eu cychwyn, penderfynwyd gofyn i Ben Wilcox-Jones o'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am estynni'r arwydd cyflymdra tuag at Fferm Glanaber ar yr A525 yn Llanrhaeadr

#### 13. CAMERA CYFLYMDER YN LLANRHAEADR (DROS DRO A PARHAOL).

Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl cadarnhad Ben Wilcox-Jones o'r lleoliad camera cyflymder dros dro yn Llanrhaeadr.

#### 14. MATERION CYLLID.

A: Mae'r Clerc yn drefniadau'r Mandate Cyfrif Banc newydd y Cyngor.

B. Derbynni'r aelodau oddi wrth y Clerc, gopi o'r cyfrifon y Cyngor am y ddwy flynedd yn diweddu 31ain o Fawrth 2021 a 31ain o Fawrth 2022.

C. Datganiad Banc £16,501.52.

D. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Cyngor Sir Ddinbych am wasanaeth trydanol i'r Goeden Nadolig £921.11.

2. Gwenfyl Jones am flodau yn y gymuned £106.99.

3. Ffi fisol Banc HSBC £5.00.

4. Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod blaenorol y Cyngor £20.00.

5. Torch Pabi £50.00.

E. Cais am gefnogaeth arian oddi wrth Ysgol Pant Pastynog, Prion - Penderfynwyd cyfrannu £500.00.

F. Cais am gefnogaeth arian oddi wrth "Pwyllgor Cyd Reoli' Adnoddau Cymunedol, Llanrhaeadr" – Penderfynwyd cyfrannu £450.00.

G. Derbyniwyd gwybodaeth Symiau Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych.

#### 15. CAIS CYNLLUNIO.

Cais 23/2022/1003 – Codi estyniad a newidiadau i'r annedd yn Bron Haul, Peniel – dim gwrthwynebiad.

#### 16. YMGYNGHORIAD ENWAU STRYDOEDD.

Derbyniwyd ymgynghoriad oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn ag enw'r stryd newydd ar y datblygiad tai ar y cae gerllaw Dolwar, Llanrhaeadr. Awgrym i'r enw'r stad gan Gyngor Sir Ddinbych yw "Llys Cae Capel".

Penderfynwyd Gyngor Cymuned Llanrhaeadr ar enwau "Maes Cinmeirch" neu "Llys-y-Gadair".

#### 17. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

A. Derbyniwyd adroddiad rhyngwyd oddi wrth Philip Burrows, Swyddog Digidol Cyngor Sir Ddinbych. Penderfynwyd yr aelodau i wahodd Mr Burrows i'r cyfarfod nesaf y Cyngor.

B. Mae Gwasanaeth Carolau Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych ar nos Fercher 7fed o Ragfyr 2022 yn yr Eglwys y Plwyf, Rhuddlan am 7.00 o'r gloch.

C. Gofynni'r Clerc ysgrifennu ato at Mr Peter Lya o'r Cyngor Sir Ddinbych i estynni'r llinell felen dwbl rhwng Ysgol Bro Cinmeirch a'r Lodge yn Llanrhaeadr.

#### 18. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Gofynni'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych fod yna goeden wedi syrthio ar lawr ar y Llwybr Cyhoeddus wrth Dŷ Cerrig a Lon ym Mhrion.

#### 19. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 30AIN O IONAWR 2023 AM 7.30 O'R GLOCH YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH AM 7.30 O'R GLOCH.